sir ddinbych denbighshire
Cyngor
County Council

# Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Ffyrdd Amrywiol, Rhuthun) (TRAFFIG UNFFORDD) 2026

Mae Cyngor Sir Ddinbych (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”) wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1(1) a (2) a 2(1) i (3) a rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984 y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”) a phob pŵer arall sy’n ei alluogi, ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 o Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. a) Ni chaiff unrhyw berson, oni bai dan gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd heddwas mewn iwnifform, achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd ddefnyddio’r darnau o’r ffyrdd a nodir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn ar wahân i’r cyfeiriad y nodir yn yr atodlen honno.

   (b) Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 2(a) o'r Gorchymyn hwn yn gymwys er mwyn atal unrhyw berson rhag achosi i unrhyw feiciau pedal fynd ar hyd y rhan honno o'r ffordd a nodir yn Atodlen 2, i'r naill gyfeiriad neu'r llall.

3. Eithriadau Cyffredinol
   Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd deithio mewn cyfeiriad sy’n wahanol i’r cyfeiriadau a nodir yn y gorchymyn hwn, am gyhyd ag y bydd angen i ganiatáu:-
   (a) Y cerbyd i'w ddefnyddio gan y gwasanaethau brys yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol.
   (b) Y cerbyd i'w ddefnyddio at ddibenion yr awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y diben hwnnw mewn unrhyw ffordd arall

(c) Y cerbyd os na ellir ei ddefnyddio’n gyfleus at y diben hwn ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o’r canlynol:-

(i) Gwaith adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel

(ii) Symud unrhyw rwystr i draffig

(iii) Cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o ffyrdd

(iv) Gosod, codi, addasu neu drwsio unrhyw garthffos neu unrhyw offer cyfleustodau ar dir cyfagos i’r darnau o ffyrdd a nodir, neu arfer unrhyw bŵer neu ddyletswydd statudol arall ar gyfer cynnal a chadw a chyflenwi nwy, dŵr, trydan neu unrhyw system telathrebu fel y'i diffinnir yn Adran 4 o Ddeddf Telathrebu 1984.

4. Bydd y gwaharddiadau a’r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn dirymu, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau a wnaed, neu sydd mewn grym fel pe baent wedi’u gwneud, dan Ddeddf 1984, neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac os oes gwaharddiad neu gyfyngiad wedi’i osod, amrywio neu’i ddirymu gan y Gorchymyn hwn sy’n gwrthdaro â gwaharddiad neu gyfyngiad a osodwyd gan Orchymyn blaenorol, yna bydd darpariaethau’r Gorchymyn hwn yn trechu.

5. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli’r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

6. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar     2026 a gellir ei enwi yn Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Ffyrdd Amrywiol, Rhuthun)
(TRAFFIG UNFFORDD) 2026

7. Os yw llys, Llywodraeth Cymru neu’r Tribiwnlys Cosbau Traffig, yn datgan bod unrhyw ran o’r Gorchymyn hwn yn annilys neu’n anorfodadwy, ni fydd y datganiad hwnnw yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

8. Mae Gorchymyn Sir Dinbych (Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun (Traffig Un Ffordd) 1969 drwy hyn yn cael ei ddirymu:

sir ddinbych denbighshire
Cyngor
County Council

# Darnau o Ffyrdd yn Rhuthun yn Sir Ddinbych

## Atodlen 1

## Traffig Unffordd

## Symud Cyfyngiadau Traffig

**Enw'r Stryd:** Stryd y Ffynnon

**Cyfeiriad a Ganiateir:** Gogleddol

**Disgrifiad:** O'i chyffordd â Stryd y Llys i'w chyffordd â Stryt-y-Farchnad

**Enw'r Stryd:** Stryt-y-Farchnad

**Cyfeiriad a Ganiateir:** Gogledd Ddwyreiniol

**Disgrifiad:** O'i chyffordd â Stryd y Ffynnon i bwynt sydd 12m i'r De o'i chyffordd â Ffordd Wynnstay

**Enw'r Stryd:** Sgwâr Sant Pedr

**Cyfeiriad a Ganiateir:** I gyfeiriad Clocwedd - gogleddol, dwyreiniol a deheuol

**Disgrifiad:** Y darn hwnnw o ffordd sy'n amgylchynu Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun ar ei ochrau gorllewinol, gogleddol a dwyreiniol o'i chyffordd â Stryd Clwyd, yn glocwedd i'w chyffordd â Stryt-y-Farchnad

## Atodlen 2

## Traffig Unffordd (dwyffordd ar gyfer beiciau pedal)

**Enw'r Stryd:** Stryt-y-Farchnad

**Cyfeiriad a Ganiateir:** De-orllewin

**Disgrifiad:** O bwynt sydd 12m i'r De o'i chyffordd â Ffordd Wynnstay i'w chyffordd â Stryd-y-Ffynnon.

Seliwyd y Gorchymyn hwn a’r Atodlenni sydd ynghlwm gyda Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ddinbych.

**GWEITHREDWYD fel Gweithred drwy osod SÊL GYFFREDIN**
**Cyngor Sir Ddinbych yng ngŵydd**

**Llofnodwr Awdurdodedig ……………………………….**

**Dyddiedig y dydd hwn o 2026**